Cenn@d

MAWRTH 20 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 160

# Derbyniad Rhyngwladol a Brecwast Gweddi Seneddol Gŵyl Ddewi

Roedd y ddeuddydd 6–7 Mawrth yn gyfnod arbennig i gynrychiolwyr seneddol a mudiadau crefyddol yng Nghymru a thu hwnt. Bore Iau, 7 Mawrth, cynhaliwyd Brecwast Gweddi Seneddol Gŵyl Ddewi a chafwyd Derbyniad Rhyngwladol dan nawdd Athrofa Evan Roberts y noson cynt. Sefydliad sy'n gwarchod safleoedd hanesyddol mewn cysylltiad â Diwygiad 1904/5 ac yn trefnu rhai digwyddiadau yn y Senedd yw Athrofa Evans Roberts.

Ymhlith y siaradwyr yn nerbyniad Athrofa Evan Roberts yr oedd Siân Wyn Rees, Pennaeth Cymdeithas y Beibl yng Nghymru. Soniodd am ei braint fawr o gael arwain y gwaith a chydweithio â thîm mor arbennig wrth ddathlu pen-blwydd y Gymdeithas yn 220 oed. Cyfeiriodd at y dechreuadau yng Nghymru a'r cysylltiad enwog â Mary Jones a Thomas Charles yn y Bala.

Ymhlith y siaradwyr yn y Brecwast Gweddi yr oedd Elin Jones, Llywydd Senedd Cymru; Jane Hutt, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Phrif Chwip Llywodraeth Cymru; Seán Ó Fearhaíl TD, Ceann Comhairle, Dáil Éireann; a'r Dr Rowan Williams, cyn-Archesgob Caergaint. Cafwyd hefyd berfformiadau gan y tenor Rhys Meilyr Jones, y bariton Owain Rowlands a'r pianydd Rhiannon Pritchard, a'r delynores Bethan Semmens.









Cacen dathlu pen-blwydd Cymdeithas y Beibl yn 220 oed

# Brecwast Gweddi Sir Benfro

'Y Brecwast Gweddi gore, mor belled!' 'Brecwast o'r safon ucha.' 'Wedi mwynhau ma's draw. Braint oedd cael mwynhau bwyd hyfryd a chymdeithas felys, ond yn bennaf oll clywed tystiolaeth gadarn am ras Duw a hynny yn Gymraeg.' Dyma rai ymatebion i'r Brecwast Gweddi pan ddaeth tua 110 o bobl at ei gilydd yng Ngwesty Allt-yr-afon, Cas-blaidd, fore Sadwrn, 2 Mawrth. Blasus tu hwnt oedd y brecwast – 'Full Welsh', wrth gwrs – wedi ei weini'n gynnes a phroffesiynol gan staff gofalgar y gwesty, a'r cyfan yn digwydd mewn awyrgylch cyfeillgar. Harddwyd y byrddau â blodau prydferth, gwaith graenus Llinos Twigg.

Yn dilyn toriad byr cawsom ein harwain mewn sesiwn o stori a chân gan Cath Woolridge a Rachel Mathias, o Sound of Wales – ardderchog! Cafodd y gwesteion gyfle i ymuno yn nifer o'r

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

Ar drothwy'r Wythnos Fawr, mae Elfyn Pritchard yn holi **... Gwlad pa addewid?** **Tudalen 3**

**Apêl Grawys Tearfund** **Tudalen 5**

**Pennod newydd i ganolfan Mary Jones, ger y Bala** **Tudalen 8**

*Brecwast Gweddi Sir Benfro*
*(parhad o dudalen 1)*

emynau traddodiadol, fel 'Rwy'n gweld o bell y dydd yn dod', 'Dros Gymru'n gwlad, O Dad, dyrchafwn gri' a 'Dyma gariad fel y moroedd'. Roedd yn braf clywed rhai emynau newydd hefyd, ffrwyth gwaith yr Ysbryd Glân yn ein dydd ni. Soniodd Cath am ryfeddod cariad Duw a'i ffyddlondeb ym mhob storm mewn bywyd. Ei hanogaeth oedd ar i bawb bwyso ar ei gariad a ddatguddiwyd yn Iesu Grist, ei Fab.

Cawsom ein harwain mewn gweddi gan unigolion ar themâu gwahanol: Bonni Davies yn gweddïo dros fyd amaeth; Siân Elin Thomas dros fyd addysg; Catrin Isaac Thomas dros y gwasanaethau brys; a Geoff Eynon dros Fwrdd Iechyd Hywel Dda. Roedd y gweddïau'n ddwys, yn afaelgar a chofiadwy.

Yna cawsom ail sesiwn gan Cath a Rachel, a'r ddwy'n canu mor swynol. Mae'n amlwg bod eneiniad Duw arnynt. Er eu bod eisoes wedi arwain addoliad ar draws Prydain, mewn cynadleddau mawr a bach, dyma'r tro cyntaf iddynt wneud hynny yn y Gymraeg. Braf oedd eu gweld yn mentro ar ddefnydd cyhoeddus o'r iaith Gymraeg. Efallai y bydd y dechreuad hwn yn y Brecwast Gweddi yn arwain at bethau mawr ac y byddwn yn medru tystio maes o law fod hyn wedi dechrau gyda ni yn sir Benfro!





Cafodd nifer eu cyffwrdd gan gyfraniadau Cath a Rachel a'r gweddïau dwys. Mewn dydd o drai ar grefydd yng Nghymru, roedd hi'n braf gweld cynifer o bob oed wedi dod i frecwast gweddi o bob rhan o sir Benfro a rhai o sir Gâr. Estynnir ein diolchiadau i Gronfa Langton am gynorthwyo'n ariannol i sicrhau bod tua deunaw o bobl ifanc wedi cael y cyfle i fynychu'r Brecwast am ddim ac wedi elwa o fod yn rhan o ddigwyddiad Cristnogol cyffrous. Mae'r negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, negeseuon testun, galwadau ffôn a sgyrsiau unigol wedi bod yn llawn o werthfawrogiad am y Brecwast Gweddi eleni. Gellir cael llawer mwy o fanylion am weinidogaeth Cath a'i phriod, Dai, ar wefan Sound of Wales: https://www.soundofwales.org.uk.

Wrth gwrs, un peth yw mynychu Brecwast Gweddi sirol unwaith y flwyddyn, peth arall yw ymroi i weddïo'n gyson dros sir Benfro. Pwy tybed a ddaw i sefyll yn y bwlch i weddïo'n gyson am adfywiad ysbrydol yn ein sir?

*Geraint Morse*

## Oedfa i ddathlu Gŵyl Ddewi

Dydd Iau, 29 Chwefror, am yr ail flwyddyn yn olynol, cynhaliwyd oedfa yng Nghadeirlan Anglicanaidd Lerpwl i ddathlu Gŵyl Dewi. Croesawyd ni i'r gwasanaeth gan y Gwir Barchedig Ddr Sue Jones, Deon y Gadeirlan. Traddodwyd y bregeth gan y Parch. Carwyn Siddall, Llanuwchllyn, a daeth llond bws o bobl o ardal y Bala gydag ef i'r oedfa. Cyfeiriodd at dair agwedd o fywyd Dewi – fel addysgwr, addolwr ac arloeswr, gan bwysleisio'r angen i ninnau ddysgu eraill, i beidio bod ag ofn addoli ac i fod yn barod i arloesi. Dyna oedd ffordd ardderchog o ddathlu bywyd ein nawddsant.

*John Williams*





# Ar drothwy'r Wythnos Fawr, mae Elfyn Pritchard yn holi ... **Gwlad pa addewid?**

Mae'r Dwyrain Canol yn rhan hynod gymhleth o'n byd. Bu cymaint o genhedloedd yn byw yn ei gwledydd, pobl grwydrol yn aml, fe newidiwyd ac fe addaswyd y ffiniau dro ar ôl tro. Bu, ac y mae, yn rhan strategol o'r byd a hynny am sawl rheswm, gwleidyddol ac economaidd. Mae'n rhan o'r byd sy'n pegynu barn hefyd. Does ond rhaid darllen *Cenn@d* i sylweddoli hynny.

I'r rhan hon o'r byd y ganwyd Iesu – ym Methlehem Jwdea, yn ôl y Beibl, dinas fawr erbyn heddiw sy heb fod ymhell o Jerwsalem ac yn rhan o'r arfordir gorllewinol (y West Bank) a hawliwyd gan Israel, dinas y mae ynddi fwy o Fwslemiaid nag o Gristnogion. Yn Israel y mae Nasareth, fu unwaith yn bentre ond sydd hefyd bellach yn ddinas gyda dros saith deg mil o bobl yn byw ynddi, Arabiaid yn bennaf.

Aeth dros ddwy fil o flynyddoedd heibio er pan gerddai Iesu y dirwedd hon, yn berson cig a gwaed oedd yn pregethu cariad, ac yn ei arddangos yn ei fywyd bob dydd a'i agwedd at bobl gyffredin ei gyfnod, ac yn cerdded y llwybr a arweiniai i'r groes. A yw'n dal i gerdded y ddaear gyda'r un bregeth, tybed?

Beth wnawn ni o'r erchylltra yn ei gynefin daearol erbyn hyn? Beth wnawn ni o'r lladd dibris a'r llanast anhygoel y mae llywodraeth Israel yn ei dywallt ar Balestiniaid diniwed? A'r diodde achoswyd i Israeliaid diniwed gan Hamas? Yr holl blant sy'n cael eu lladd neu eu clwyfo; ninnau'n gofyn heb wybod yr ateb: 'Pam y caiff bwystfilod rheibus / dorri'r egin mân i lawr?' Dyw'r gwirionedd na'r drygioni ddim i gyd ar un ochr, sy'n gwneud unrhyw gymod yn anodd iawn ei rag-weld.

Mae hi'n dymor y Pasg, a gallwn ofyn mewn difri beth yw'r neges a glywir o bulpudau ac mewn gwasanaethau y dyddiau hyn? Mor anodd sôn am gariad a chymod a heddwch a thangnefedd mewn byd lle mae miliynau na phrofasant erioed ddim o'r rhinweddau hyn. A oes yna bwrpas? Onid yw neges y Pasg yn farw hoel, wedi ei chladdu dan rwbel fu unwaith yn gartrefi, a than anobaith fu unwaith yn hyder ac yn obaith gwirioneddol?



Llun: Brady Leavell – Unsplash.com

A minnau'n sgrifennu hwn, daeth i fy meddwl emyn ddysgais i yn blentyn ac y bûm yn ei ganu lawer tro mewn gwasanaethau, yn enwedig o gwmpas y Pasg. Mae'n dechrau fel hyn:

Dacw gariad, dacw bechod
Heddiw ill dau ar ben y bryn.

Mae'n emyn sydd yn ei bennill cyntaf yn disgrifo'r ymdrech rhwng y ddau rym pan oedd Crist ar y groes. Ac mae diwedd y pennill yn datgan:

Cariad, cariad
Wela i'n perffaith gario'r dydd.

Er mwyn bodloni fy hun nad oeddwn yn camddyfynnu, mi es i chwilio amdano yn *Caneuon Ffydd*. Ond dydi o ddim yno! Oes, mae digon o emynau Williams (gormod fyddai rhai yn ei ddweud) yn y gyfrol, ond 'dyw hwn ddim. Pam, tybed? Pam y gwrthodwyd o gan aelodau'r panel dewis? Ai am eu bod yn gweld ynddo ddatganiad nad yw'n wir? Am nad yw cariad yn cario'r dydd, ac mai pechod a drygioni sy'n cael y llaw uchaf bob gafael?

Ydyn, mae'r newyddion a glywn ar y radio a'r lluniau a welwn ar ein sgriniau yn dorcalon ac yn ddigon i wneud inni anobeithio y bydd heddwch a thangnefedd fyth yn teyrnasu ar ein daear.

Beth wnawn ni, felly? Parhau i ddatgan y cariad nad yw'n bod? Dal i ganu emynau nad oes ystyr iddyn nhw, a gweddïo ar Dduw nad yw, mae'n ymddangos, yn gwrando?

Wel nage, rhaid i ni ddal i gredu yn neges y Pasg, dal i ddatgan mai cariad yw'r unig ateb i drafferthion byd, a phwysicach na datgan a chredu, gweithredu'r cariad hwnnw yn ein cylch ni o fywyd. Byw mewn gobaith a gwasanaeth, nid boddi mewn anobaith nac arnofio ar fôr tawel difaterwch. Byddai'r hen bobol, pan deimlent eu bod yn suddo, yn sôn am raffau'r addewidion. Onid yw'n bryd i ninnau, holl werin Cymru, ailgydio ynddyn nhw?

# Croeso i Langrannog, a chroeso arbennig i Ŵyl Llanw

Mae Llanw yn dychwelyd eleni i Langrannog rhwng 1 a 5 Ebrill. Bydd rhai ohonom yn cofio'r ŵyl gyntaf yno yn 2008, lle daeth oddeutu hanner cant o ffrindiau ynghyd. Dros y 15 mlynedd diwethaf mae'r ŵyl wedi mynd o nerth i nerth, ac eleni rydym yn disgwyl croesawu cynifer â thri chant i'r ŵyl. Ceir llawer o sôn am drai ysbrydol ein gwlad, ond yn Llanw rhown ein bryd ar addoli'r Duw sy'n parhau i fod ar waith yn ein plith.

Ymhlith y mynychwyr y mae Cristnogion o bob enwad Cymreig, Cristnogion o eglwysi anenwadol, Eglwyswyr a Phentecostaliaid, a phawb yn un yn ein hawydd i addoli a phrofi'r Iesu atgyfodedig. Yn falch ac yn cloddio'n ddwfn i'n treftadaeth Gristnogol Gymraeg, a'r un pryd yn falch o brofi a cheisio'r cyfoes a'r newydd. Dyma ŵyl Gristnogol flynyddol sy'n galw Cristnogion o bob oed ynghyd i ddathlu'r efengyl sy'n newyddion da i'n dydd.

Cynhelir oedfa bob bore a bob nos lle ceir siaradwyr a neges gwerth ei rhannu ac addoliad egnïol. Yn ystod y dydd cynhelir seminarau, gweithgareddau i'r plant a'r ieuenctid a chyfle i bawb fwynhau awyr iach sir Aberteifi a digoni ein hunain â bwyd safonol bwyty newydd Llangrannog.

Mae'r holl lety wedi gwerthu allan ers wythnosau ond bydd croeso cynnes i ymwelwyr dyddiol.

Dyma flas o arlwy'r wythnos:

**Dydd Llun (1 Ebrill)**

7:00yh Dathliad pob oed gyda Martyn Geraint: Elvis a'r Efengyl; addoliad dan arweiniad Meilyr Geraint ac Adlais.

**Dydd Mawrth (2 Ebrill)**

10.00 Oedfa fore gydag Arfon Jones ac Adlais: Cwrdd â Iesu – ble ydyn ni arni? (Marc 10:35–52)

2:00 Gweithdy addoliad dan arweiniad Meilyr Geraint

4:00 Panel trafod: 'Cerdded gyda'r Iesu Byw'

7:00 Dathliad nos gyda Heulwen Davies, Llanelli; addoliad dan arweiniad Ffynnon, Llandysul

**Dydd Mercher (3 Ebrill)**

10.00 Oedfa fore gydag Arfon Jones ac Adlais: Cwrdd â Iesu – Duw yn teyrnasu (Marc 10:17–31)

2:00 Gweithdy addoliad pob oed gyda Siân Rees

4:00 Darlith hanes gan Densil Morgan: 'Beth sy gan Emrys ap Iwan i'w ddweud wrth yr unfed ganrif ar hugain?'

7:00 Dathliad nos: 'Byddwch Ffrwythlon': straeon, mawl a gweddi dros Gymru dan arweiniad Steff Morris, Lois Franks a ffrindiau; addoliad dan arweiniad Caersalem, Caernarfon

**Dydd Iau (4 Ebrill)**

8:00 Cyfarfod Gweddi gyda Menna Machreth: Gweddi dros Heddwch yn Gaza ac Wcráin

10.00 Oedfa fore gydag Arfon Jones ac Adlais: Cwrdd â Iesu – yr Ysbryd yn nerthu (Ioan 14:15–21; 20:19–23)

4:00 Panel trafod: 'Iesu'r Meddyg Da': iacháu – ddoe a heddiw

7:00 Dathliad nos gyda Steffan Jones, Llanelli; addoliad dan arweiniad Emaus, y Bala

Ceir manylion pellach, amserlen lawn a manylion prynu tocynnau dydd ymlaen llaw ar ein gwefan: llanw.org. Bydd croeso i chi ddod yno ar y dydd i fynychu'r oedfaon a'r seminarau. Ond os ydych yn dymuno ymuno yn y prydau bwyd, bydd angen prynu tocynnau dydd ymlaen llaw.






# Apêl Grawys Tearfund

Ym mhedwar ban byd, mae anghenion yn cynyddu'n gynt nag erioed, ar yr un pryd ag y mae costau Tearfund yn codi'n ddychrynllyd a'n hadnoddau'n cael eu hymestyn i'r eithaf.

Ond, wrth i'r Pasg nesáu, dydi hi ddim yn rhy hwyr i chi helpu pobl i oresgyn tlodi eithafol trwy eglwys Dduw drwy anfon rhodd i'n Hapêl Grawys heddiw.

Roedd pobl fel Joseph a Ratna (yn y llun) yn wynebu bywyd o dlodi eithafol heb olau ym mhen draw'r twnnel.

'Un pryd y dydd roeddwn i'n arfer ei gael,' meddai Ratna.

### Allwch chi gyfrannu?

Gan fod costau bwyd yn codi a bod yr argyfwng hinsawdd wedi gwaethygu effeithiau tymor y monsŵn a oedd eisoes yn ddifrifol yn Bangladesh, allen nhw ddim symud ymlaen o gwbl. Penderfynon nhw ymuno â rhaglen Tearfund, Trawsnewid Cymunedau, sy'n cael ei chynnal drwy eu heglwys leol, a dechreuodd eu bywydau newid yn sylweddol.

Fel rhan o'r rhaglen, fe wnaethon nhw ymuno â grŵp astudio'r Beibl lle mae'r aelodau'n gweddïo dros ei gilydd, yn rhannu sgiliau ac adnoddau, ac yn canfod atebion i'w tlodi. Maen nhw'n cymryd camau i ymateb i anghenion y gymuned hefyd.

**Gallai eich rhodd hael chi o £75 helpu i ddarparu ein hyfforddiant arloesol dan arweiniad eglwys mewn cymuned, gan drawsnewid bywydau a newid dyfodol pobl.**

### Allwch chi gyfrannu nawr?

'Roedd dŵr y pwll wedi'i lygru; allen ni ddim o'i ddefnyddio,' eglura Ratna. 'Fe ddywedon ni wrth Tearfund a Shalom [partner Tearfund]. Ar ôl ymgynghori â nhw, gwnaed trefniadau i atgyweirio'r pwll.

'Hefyd, fe wnaethon nhw roi dwy afr i mi. Fe werthais i un ac fe gafodd y llall afr fach. Nawr mae gen i ddwy … Trwy'r hyfforddiant, daeth hapusrwydd a thangnefedd i fy mywyd personol a theuluol. Diolch i Dduw. Mae llawer o deuluoedd yma, yn ogystal â fy nheulu i, wedi dod yn hunanddibynnol. Mae bywydau pobl wedi gwella llawer ond mae angen gwneud mwy.'



**Mae anghenion pobl fel Joseph a Ratna yn fwy nag erioed. Y Pasg hwn, a wnewch chi helpu eglwysi ledled y byd i sicrhau trawsnewidiad?**


Mae'ch rhodd chi'n hanfodol i'r bobl sy'n cael eu taro waethaf gan y cynnydd mewn costau. Dydi tlodi ddim yn rhan o gynllun Duw. Ond rydych chi. A dydi hi ddim yn rhy hwyr i anfon rhodd cyn y Pasg a helpu i ddiwallu anghenion cynyddol ledled y byd.

Os ydych chi eisoes wedi anfon rhodd i'n Hapêl Grawys i gefnogi gwaith fel hyn, diolch. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn am eich cefnogaeth ffyddlon. Os nad ydych wedi cyfrannu eto, dydi hi ddim yn rhy hwyr, a'r Pasg yn nesáu, i wneud gwahaniaeth enfawr yn y cyfnod heriol hwn.

Y Pasg hwn, gofynnwn i chi weddïo dros eglwysi pobl fel Joseph a Ratna ledled y byd, a gofyn i Dduw roi popeth y mae arnynt ei angen i drawsnewid eu cymunedau. Diolch yn fawr.

Yr eiddoch yng Nghrist,

*Cynan Llwyd*



# Cymorth Cristnogol – Taclo Tlodi – Grawys 6
# Gyda'n gilydd

## Gofyn Ymlaen Llaw: cwestiwn i'w ystyried cyn y sesiwn hon

A fedrwch chi feddwl am achlysur pan fuoch chi'n siarad am bwnc a oedd yn agos at eich calon? Beth ddigwyddodd? Sut wnaethoch chi deimlo?

## Darlleniad o'r Ysgrythur: Marc 4.30-32

Gofynnodd [Iesu] wedyn: "Sut mae disgrifio teyrnasiad Duw? Pa ddarlun arall allwn ni ddefnyddio? Mae fel hedyn mwstard yn cael ei blannu yn y pridd. Er mai dyma'r hedyn lleia un mae'n tyfu i fod y planhigyn mwya yn yr ardd. Mae adar yn gallu nythu a chysgodi yn ei ganghennau!"

## Sut i ddefnyddio'r pecyn hwn

Os ydych chi eisoes wedi gwneud defnydd o'r pecynnau cwrs eraill o'r gyfres Taclo Tlodi, efallai eich bod yn sylwi fod hwn yn edrych ychydig yn wahanol. **Mae'r pecyn hwn yn canolbwyntio ar eich cefnogi chi a'ch eglwys i gymryd camau a chodi llais ynglŷn â thlodi yn 2024.** Fe fyddwn ni'n tynnu o rai o'r adnoddau o rannau eraill y gyfres. Os ydych chi'n defnyddio'r pecyn hwn fel sylfaen ar gyfer sesiwn unigol, peidiwch â phoeni! Fe gewch chi'r dolenni-cyswllt i ganfod ein deunyddiau Taclo Tlodi clywedol a fideo, os hoffech chi eu harchwilio.

Ar gyfer y grwpiau i gyd, rydyn ni'n argymell ymgynghori â'r pecyn Arweinwyr Grwpiau am wybodaeth cyn ichi ddechrau'r sesiwn hon.

## Myfyrdod: Pa wahaniaeth allwn ni'i wneud trwy godi llais gyda'n gilydd am dlodi yn 2024?

Mae tlodi'n boenus. Mae'n boenus pan fo plentyn yn mynd i'w wely heb fwyd; mae'n boenus pa na all ein cymydog fforddio cartref parchus; mae'n boenus pan fo effaith tlodi'n cael ei deimlo'n anghyfartal ar draws y byd.

Ond **dydy tlodi ddim yn anorfod**. Gall newidiadau a wneir gan y rhai hynny sydd mewn grym, a'r newidiadau rydyn ni'n eu gwneud, orfodi pobl i mewn i dlodi. Gall ein newidiadau hefyd newid y systemau a'r strwythyrau sy'n creu tlodi.

Yn 2024, fe fydd y DU yn cynnal Etholiad Cyffredinol. Dydy'r sesiwn hon ddim yn sôn am y ffordd y dylech chi fwrw eich pleidlais. Yn hytrach, mae'n ymwneud â chydnabod y gall ein pleidleisiau a'n lleisiau lunio'r agenda yn ein cymunedau a'n gwlad. **Gyda'n gilydd, medrwn wneud gweithredu ar dlodi yn flaenoriaeth i'r rhai hynny sydd â grym gwleidyddol, pa bynnag blaid y maen nhw'n perthyn iddi.** Medrwn sicrhau bod gweithredu'n digwydd lle rydyn ni'n byw ac yn ein heglwysi. Fe allen ni hyd yn oed gael effaith yn fyd-eang. **Yn 2024, fe allwn ni wneud gwahaniaeth.**

Mae'r sesiwn hon i gyd ynglŷn â datblygu eich cynllun Taclo Tlodi eich hunan. **Rydyn ni am ichi blannu hadau newid y gallwn eu meithrin gyda'n gilydd – hadau a fydd yn tyfu teyrnas o gyfiawnder a chariad Duw.**

Dewch inni edrych ar rai o'r darnau o'r Beibl y gellid eu canfod yn rhai o'n deunyddiau Taclo Tlodi eraill:

> *Beth dw i eisiau ydy gweld cyfiawnder fel dŵr yn gorlifo, a thegwch fel ffrwd gref sydd byth yn sychu. (Amos 5.24)*

> *"Felly," meddai Iesu, "yn dy farn di, pa un o'r tri fu'n gymydog i'r dyn wnaeth y lladron ymosod arno?"*
> *Dyma'r arbenigwr yn y Gyfraith yn ateb, "Yr un wnaeth ei helpu." A dwedodd Iesu, "Dos dithau a gwna'r un fath."*
> *(Luc 10.36-37)*

> *Mae Ysbryd yr Arglwydd arna i, oherwydd mae wedi fy eneinio i i gyhoeddi newyddion da i bobl dlawd. (Luc 4.18 ac Eseia 61.1)*

**Cyfiawnder. Tegwch. Trugaredd. Newdyddion Da. Sut fase hi'n edrych petaen ni'n llunio ein hymateb i dlodi fel cymdeithas o gwmpas yr egwyddorion hyn?**

Yn y cyfweliadau sain a'r ffilmiau a archwiliwyd yn sesiynau eraill Taclo Tlodi, fe glywson ni gan bobl sy'n ceisio ymateb yn unol â'r egwyddorion hyn. Mae llawer o'r lleisiau a glywyd yn siarad o brofiad bywyd o dlodi. Yr hyn sy'n drawiadol ynglŷn â'r tystiolaethau hyn ydy'r dyfalbarhad mewn gobaith, y gred mewn newid.

"Gall bobl gyffredin fod yn gyfrwng newid. Felly, peidiwch â meddwl na allwch chi wneud, oherwydd mi allwch chi." (Margaret Robinson, Ymgyrchydd Cymorth Cristnogol, y DU)

"Fe gawn ein hannog gan yr ysgrythur, y Samariad Trugarog – mae'n ymwneud â'r eglwys, wyddoch chi, bod yno a bod yn gefn i rywun sydd mewn angen... Fe allwn ni ddal llywodraethau i gyfrif ar eu polisïau, yn enwedig ar yr ymrwymiadau maen nhw'n eu gwneud ... Dewch inni beidio â rhoi'r gorau iddi. Dewch inni beidio â rhoi'r gorau iddi." (Bryar Mlowoka, Mudiad Efengylaidd Malawi)

"... mae'n rhaid i newid ddod o'r gwaelod i fyny … dyna beth ddylai'r eglwys fod yn ei wneud. Rydyn ni mewn cymunedau ledled y wlad, ledled y byd, rydyn ni wedi'n gwreiddio mewn cymunedau ac felly, fe fedrwn gryfhau'r cymunedau hynny, fe fedrwn ni ddangos cariad tuag at y cymunedau hynny, yn y ffordd y gwnaeth Iesu Grist." (Parch. Chris Minchin, Tîm Benwell a Scotswood, Newcastle upon Tyne, y DU)

"Dwi'n gwybod ei bod hi'n haws dweud na gwneud ond dyma lle mae'r Ysbryd yn ein galw i roi o'n hegni ar hyn o bryd yn nhermau chwyldro. Fe fydd yna newid. Efallai nad heddiw, ond yn sicr yfory." (Winnie Baffoe, South London Mission, y DU)

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul y Blodau, 24 Mawrth am 7.30yh**
Ar Sul y Blodau bydd Nia Roberts yng Ngheredigion i gwrdd â Donald Morgan, arbenigwr ar flodau a'u harwyddocâd yn nhymor y Pasg. A chawn fwynhau gwledd o ganu mawl o addoldai ledled Cymru.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul y Blodau, 24 Mawrth, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r Parch. Aled Lewis Evans, Wrecsam

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul y Blodau, 24 Mawrth, am 12yp**
Oedfa dan ofal y Tad Alanus, Luton

*Cymorth Cristnogol – Taclo Tlodi – Grawys 6*
*Gyda'n gilydd*
*(parhad o dudalen 6)*

"mae tlodi yn rywbeth y gellir, os gweithiwn ni i gyd gyda'n gilydd, ei ddileu. ... Petae gan bawb y meddylfryd hwnnw na all unrhyw newid ddigwydd, fase yna ddim newidiadau'n cael eu gwneud o gwbl yn y byd." (Ashleigh May, Mums on a Mission, y DU)

"...mae'n rhaid ichi jest ddal ati. Wyddoch chi byth beth ydy'r weithred fach olaf sy'n mynd i ysgogi trawsnewidiad mewn cymdeithas neu mewn llywodraeth yn y ffordd rydyn ni'n gwneud pethau, y ffordd rydyn ni'n meddwl am bethau, ond fe wyddon ni ei bod hi'n bosib."
(Stef Benstead, Ymgyrchydd Anabledd, y DU)

"Cam wrth gam, fe fedrwn ni leihau effeithiau tlodi yn ein cymdeithas … mae'n obaith [gen i] y byddai gweld pawb yn ymuno â'i gilydd fel un yn gwella'r gymuned."
(Carlos Valle, Cynghorydd Maes, Comision de Accion Social Menonita, Honduras)

'Efallai bod plannu a thyfu'r un goeden honno'n ymddangos yn beth bach. Ond mae'n beth anferth mewn gwirionedd.'
(Stephen Amusala, Gwasanaeth Datblygu Anglicanaidd Gorllewin Kenya)

**Fel y dywed Stephen Amusala, mae'r plannu a'r meithrin hwnnw'n rydyn ni'n ymgymryd â nhw'n gallu edrych yn fach i ddechrau ond fe wyddon ni y gall arwain at newidiadau mawr iawn.**

**Beth allech chi ei wneud i ychwanegu eich llais at y galwadau hyn am newid?**

**Defnyddiwch weddill y sesiwn hon i ddechrau eich cynllun Taclo Tlodi, gan ddilyn y camau isod.**

## Taclo Tlodi: Beth fasech chi a'ch eglwys yn gallu'i wneud?

O'r sgyrsiau gyda llywodraeth leol yn Kenya, i ddeisebau a gyflwynwyd i AS Gogledd Dyfnaint, mae siarad gyda'r rhai hynny sydd â grym gwleidyddol yn rhan bwysig o'n gweithredu ar dlodi.

Fe wyddon ni fod lefelau ymddiriedaeth mewn pleidiau gwleidyddol a'r rhai hynny sydd mewn grym yn isel. Efallai eich bod yn teimlo'n amheus o'r syniad y gall ymgysylltu â'r rhai hynny mewn grym wneud gwahaniaeth.

Fe all fod o ddefnydd i edrych 'nôl ar ein sesiwn Gobaith. Yno, fe wnaethon ni archwilio sut y gall arferion gobaith gynnwys galar a dicter. Does dim angen inni adael ein rhwystredigaethau ar ôl. Fodd bynnag, fe'n galwyd i weledigaeth wahanol. Un lle bo'n byd yn ymdebygu fwyfwy i Deyrnas Dduw.

A fedrwn ni gymryd cam gyda'n gilydd i ddal ein gwleidyddion i gyfrif a phwyso arnyn nhw i weithredu? A allwn ni fyw ein gobaith trwy weithredu?

Gellwch hefyd gymryd golwg ar ein myfyrdod ar Haelioni a phwysigrwydd a gwerth gweithredoedd bychain. Mae pob unigolyn, pob grŵp, pob eglwys sy'n cymryd cam yn ychwanegu at y corws o leisiau sy'n galw allan am fyd mwy cyfiawn, byd lle y gwelir tlodi fel gwarth sydd angen gweld ei ddiwedd.

Ar ein cardiau gweithredu 'Hadau Newid', fe gewch ystod o wahanol gamau y gallwch chi a'ch eglwys eu cymryd i wneud gwahaniaeth.

1. Edrychwch ar y cardiau gweithredu Hadau Newid. (Ar gael yn Saesneg yn unig) (Lawrlwythwch yma)
2. Dewiswch dri cham y gallech chi, eich grŵp, neu eich eglwys ymrwymo iddyn nhw.
3. Defnyddiwch daflen Hau, Dyfrio, Meithrin, Tyfu i'ch helpu i gynllunio eich camau (lle bo angen).
4. Dewch 'nôl at yr ymarferiad hwn wedi'r etholiad cyffredinol a meddwl sut mae modd ichi ddefnyddio'r camau hyn i ymgysylltu â'ch AS newydd.

**I daclo tlodi unwaith ac am byth,**
**mae arnon ni angen eich help.**

**Rydyn ni angen ichi siarad â gwleidyddion.**

**Rydyn ni angen ichi ddweud wrth eraill yn eich eglwys a thu hwnt beth allen nhw'i wneud i Daclo Tlodi.**

**Rydyn ni angen ichi blannu hadau newid.**

Wrth i'r DU baratoi ar gyfer Etholiad Cyffredinol eleni, fe fyddwch yn sylwi fod nifer o'r gweithredoedd yn ymwneud ag ymgysylltu gyda'ch AS a/neu'r rhai hynny sy'n gobeithio cael eu hethol (eich darpar-ymgeiswyr seneddol). Hyd yn oed os na wnaethoch chi bleidleisio dros eich AS, mae ganddyn nhw ddyletswydd i'ch ateb ac yn gallu codi eich pryderon yn Senedd y DU, sydd yn aml yn gymorth i ddod â'r mater at sylw'r cyhoedd. Mi fedren nhw wneud hyn, er enghraifft, trwy:

- godi eich mater gyda gweinidogion y Llywodraeth
- dechrau trafodaethau yn y senedd
- gofyn cwestiynau mewn dadleuon
- cynnig newidiadau i ddeddfau dan ystyriaeth

Yn 2024, mae ganddon ni gyfle unigryw i ddylanwadu ar ein ASau sydd i ddod a pholisïau'r prif bleidiau. Mae llawer o'n ASau am gael eu hailethol ac fe fydden nhw'n fwy parod na'r arfer i wrando, fel y bydd ymgeiswyr yr holl brif bleidiau.

Fe fydd yr eglwysi a'r mudiadau sydd y tu cefn i'r pecynnau cwrs Taclo Tlodi hyn gyda chi bob cam o'r ffordd. Cewch hyd i adnoddau Saesneg i'ch cefnogi chi yn: caid.org.uk/actonpovertyresources

Fe gewch hefyd fwy o wybodaeth am weithredu ar dlodi yn y DU yn: letsendpoverty.co.uk a mwy o wybodaeth am sut i weithredu ar dlodi byd-eang yn What to ask your PPC - Christian Aid
Fe fasen ni wrth ein boddau'n clywed ganddoch chi a'r hyn mae eich eglwys yn bwriadu'i wneud.
Os oes angen cymorth ychwanegol, cysylltwch â: campaigns@christian-aid.org

Medrwch rannu eich gweithredoedd ar y cyfryngau cymdeithasol. Tagiwch eich postiadau #TacloTlodi

## Gweddi i Gloi

Arglwydd Iesu,
Rwyt ti'n addo inni y gall dy deyrnas dyfu trwy ffydd fel hedyn mwstard.
Rwyt ti'n dweud wrthon ni bod ein gobeithion am newid yn ddigon, dim ond inni eu meithrin gyda'n gilydd.
Rwyt ti'n dangos inni fod ein gweithredoedd o gariad tuag at ein cymydog yn rhan o'r helaethrwydd o gariad sy'n llifo oddi wrthot ti, yn nerth yr Ysbryd, ac yn bendithio'r greadigaeth oll.
Arglwydd Iesu, y dydd hwn a phob dydd, gwna ni'n blanwyr, yn dyfwyr, yn ddyfrwyr, sy'n credu ac yn ymddiried yn nyfodiad dy deyrnas. Amen.

# Pennod newydd i ganolfan Mary Jones, ger y Bala

Mae 2024 yn garreg filltir i Fyd Mary Jones wrth i'r ganolfan ddathlu deng mlynedd ers ei hagor ym mis Hydref 2014.

Yn ystod y cyfnod hwn mae Byd Mary Jones wedi croesawu ymwelwyr nid yn unig o Gymru ond o bob cwr o'r byd. Mae ein tîm wedi gweithio'n galed i rannu stori ysbrydoledig Mary Jones, a sut yr arweiniodd ei thaith droednoeth, arwrol o 26 milltir i brynu Beibl Cymraeg at sefydlu Cymdeithas y Beibl.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi myfyrio ar y deng mlynedd cyntaf, a hefyd wedi bod yn edrych ymlaen at y dyfodol. Mae wedi dod yn amlwg drwy adborth gan ymwelwyr nad yw'r enw Byd Mary Jones yn adlewyrchiad cywir o'r ganolfan.

Felly rydym wedi penderfynu ailfrandio gyda hunaniaeth newydd, a phan fyddwn yn ailagor ar 23 Mawrth bydd hyn fel Canolfan 'Pererin' Mary Jones.

Pererindod oedd taith Mary i brynu Beibl iddi hi ei hun. Teithiodd i'r Bala am fod trysor ysbrydol yno, a dychwelodd adref gyda rhywbeth newydd a gwerthfawr. Edrychwn ymlaen at eich gwahodd chi yma i ddysgu rhagor am stori Mary a gweld sut all neges y Beibl newid bywydau.

Ein gweledigaeth yw bydd y safle yn cael ei ddefnyddio fel lleoliad ar gyfer digwyddiadau cenhadol amrywiol. Gobeithiwn y bydd y ganolfan yn lle i bobl gynnal encilion, hyfforddiant, cyfarfodydd gweddi ac ati, ac y bydd hefyd yn dod yn hwb ar gyfer y gymuned leol.

Bydd y ganolfan yn agor am y tymor newydd ddydd Sadwrn, 23 Mawrth 2024. I ddathlu, byddwn yn cynnal digwyddiad fydd yn cynnwys sesiwn gan Elin Owen o Esgobaeth Bangor, perfformiad o stori Mary Jones a chyflwyniad gan Mary Thomas. O hynny ymlaen byddwn ar agor 5 diwrnod yr wythnos, o ddydd Mercher i ddydd Sul, 10yb–4yp, tan ddiwedd mis Medi. Os byddai gan eich capel, eich eglwys, eich mudiad neu eich ysgol ddiddordeb mewn ymweld â ni, cysylltwch ar 01678 521877 neu e-bostiwch nerys.siddall@biblesociety.org.uk. Byddem wrth ein bodd yn eich croesawu!

Byddwch yn gallu dod o hyd i'n holl ddigwyddiadau ar ein gwefan newydd www.maryjones.org.uk yn fuan ac ar ein cyfryngau cymdeithasol: Facebook, X ac Instagram. Bydd gennym sawl digwyddiad yn ystod y flwyddyn i ddathlu'r deg, felly cadwch olwg am ddiweddariadau.






Edrychwn ymlaen at flwyddyn gyffrous iawn fel tîm Canolfan 'Pererin' Mary Jones, ac i chi ymuno â ni ar y daith.

*Nerys Siddall*

## Ysgol Sul Elim, Llanddeiniol



Dyma lun o blant Ysgol Sul Elim, Llanddeiniol, yn paratoi te prynhawn i'w mamau

Cafwyd gwledd o amgylch y bwrdd a phrynhawn bendigedig o gymdeithasu yn y capel.

*Enfys Thomas*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru